O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 259 (Cy. 60)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Troadau Pedol) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym* | *27 Chwefror 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A466, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Troadau Pedol) 2020 a daw i rym ar 27 Chwefror 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw Cefnffordd yr A466 Llundain i Abergwaun.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd wneud troad pedol wrth fynd ar naill ai cerbytffordd tua'r gogledd neu gerbytffordd tua'r de y gefnffordd o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan High Beech.

**Esemptiad**

**4.** Nid oes dim yn erthygl 3 sy'n gwahardd cerbyd rhag gwneud troad pedol—

(a) pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(b) pan fo'r person sy'n ei reoli yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Chwefror 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru